OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 724

## Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012

**Dehongli**

**3.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "academi" ("*academy*") yw ysgol annibynnol yn Lloegr y mae trefniadau academi yn gymwys iddi;

ystyr "addysgu" ("*teaching*") yw cyflawni gwaith o fath sydd wedi ei bennu gan reoliadau a wnaed o dan adran 133 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac mae "addysgu" i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "coleg dinasol" ("*city college*") yw coleg technoleg dinasol neu goleg dinasol ar gyfer technoleg y celfyddydau;

ystyr "cyflogaeth" ("*employment*") yw cyflogaeth o dan gontract cyflogaeth neu gymryd person ymlaen i ddarparu gwasanaethau mewn modd heblaw o dan gontract cyflogaeth; ac mae cyfeiriadau at fod yn "gyflogedig" i'w dehongli'n unol â hynny;

mae "cyfnod sylfaen" ("*foundation phase*") i'w ddehongli yn unol ag adran 102 o Ddeddf Addysg 2002(**2**);

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru(**3**);

ystyr "Cynllun 2006" ("*the 2006 Scheme*") yw Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2006 a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Chwefror 2006(**4**) yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau 2004, fel y'i diwygiwyd gan Gynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth (Diwygio) 2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Tachwedd 2006(**5**);

ystyr "Cynllun 2011" ("*the 2011 Scheme*") yw Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2011 a wnaed gan Weinidogion Cymru ar 25 Awst 2011 yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau 2004(**6**);

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw'r cynllun a ddisgrifir yn rheoliad 8 neu'r cynlluniau a ddisgrifir ym mharagraffau 3 i 5 o Atodlen 1 pan fo'r cyd-destun yn mynnu hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn Lloegr" ("*employment-based teacher training scheme in England*") yw cynllun a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliadau a wnaed o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002 lle y caiff person ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn ennill statws athro cymwysedig tra bo'n gyflogedig i addysgu;

(**1**) Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, O.S. 2010/2710 (Cy.227), yw'r rheoliadau sydd mewn grym ar yr adeg y gwnaed y Rheoliadau hyn.
(**2**) Diwygiwyd adran 102 gan Fesur Dysgu a Medrau (Cymru) 2009 (mccc 1), adran 47 a Mesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5), adran 21.
(**3**) Mae adran 8 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30) yn darparu ar gyfer sefydlu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru drwy Orchymyn, ac mae O.S. 1998/2911 yn cyfeirio ato.
(**4**) 2006 Rhif 8.
(**5**) 2006 Rhif 74.
(**6**) 2011 Rhif 32.

ystyr “Rheoliadau 1982” (“*the 1982 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1982(**7**);

ystyr “Rheoliadau 1989” (“*the 1989 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1989(**8**);

ystyr “Rheoliadau 1993” (“*the 1993 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993(**9**);

ystyr “Rheoliadau 1999” (“*the 1999 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999(**10**);

ystyr “Rheoliadau 2004” (“*the 2004 Regulations*”) yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004(**11**);

ystyr “safonau penodedig” (“*specified standards*”) yw'r safonau sy'n gymwys ar adeg yr asesiad a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro fel y safonau y mae gofyn i bersonau sy'n ceisio dod yn athrawon cymwysedig eu bodloni;

ystyr “safonau penodedig yn Lloegr” (“*specified standards in England*”) yw'r safonau sy'n gymwys ar adeg yr asesiad fel a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dro i dro fel y safonau y mae gofyn i bersonau sy'n ceisio ennill statws athro cymwysedig yn Lloegr eu bodloni;

ystyr “sefydliad” (“*institution*”) oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw sefydliad o fewn y sector addysg bellach neu sefydliad o fewn y sector addysg uwch;

ystyr “sefydliad achrededig” (“*accredited institution*”) yw sefydliad wedi ei achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan reoliad 7;

ystyr “sefydliad achrededig yn Lloegr” (“*accredited institution in England*”) yw sefydliad wedi ei gymeradwyo neu ei achredu fel darparwr cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol yn Lloegr o dan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002;

ystyr “sefydliad estron” (“*foreign institution*”) yw unrhyw sefydliad ac eithrio sefydliadau yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “sefydliad yn y Deyrnas Unedig” (“*United Kingdom institution*”) yw sefydliad a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig, heblaw am un sydd yn, neu'n ffurfio rhan o sefydliad lle y mae'r prif sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'n gysylltiedig â sefydliad o'r fath;

mae i “trefniadau academi” yr ystyr a roddir i “academy arrangements” gan adran 1 o Ddeddf Academïau 2010(**12**);

ystyr “ysgol” (“*school*”) yw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol neu ysgol arbennig nas cynhelir felly; ac

mae cyfeiriadau at yr ail gyfnod allweddol, y trydydd cyfnod allweddol neu'r pedwerydd cyfnod allweddol i'w dehongli yn unol ag adran 103 o Ddeddf Addysg 2002(**13**).

(**7**) O.S. 1982/106, a ddiwygiwyd gan O.S. 1988/542 a 1989/329. Dirymwyd O.S. 1982/106 gan O.S. 1989/1319.

(**8**) O.S. 1989/1319, a ddiwygiwyd gan O.S. 1989/1541, 1990/1561, 1991/1134, 1991/1840, 1991/2240 a 1992/1809. Dirymwyd O.S. 1989/1319 gan O.S. 1993/543 gydag arbedion trosiannol.

(**9**) O.S. 1993/543, a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/368, 1997/2679 a 1998/1584. Dirymwyd O.S. 1993/543 yn rhannol o ran Cymru gan O.S. 1999/2817 (Cy.18) gyda'r darpariaethau a oedd ar ôl yn cael eu dirymu gan O.S. 2000/2419 ac O.S. 2000/2906 (Cy.186).

(**10**) O.S. 1999/2817 (Cy.18), a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/1663 (Cy.158), 2002/2938 (Cy.279), 2003/140 (Cy.12), 2003/2458 (Cy.240), 2004/1729 (Cy.173), 2004/1744 (Cy.183), 2004/2733 (Cy.240) a 2010/1142 (Cy.101).

(**11**) O.S. 2004/1729 (Cy.173), a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2811 (Cy.238), 2008/215 (Cy.26) a 2010/1142 (Cy.101).

(**12**) 2010 p.32.

(**13**) Diwygiwyd adran 103 gan Fesur Dysgu a Medrau (Cymru) 2009 (mccc 1), adran 47 a Mesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5), adran 21.